Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cygor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CYNLLUNIO*

***10.00 AM - DYDD MAWRTH, 28 MAWRTH 2023***

***CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR, PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS***

**RHAID GOSOD POB FFÔN SYMUDOL AR Y MODD DISTAW AR GYFER PARHAD Y CYFARFOD**

**Gweddarlledu/Cyfarfodydd Hybrid:**
Gellir ffilmio'r cyfarfod hwn i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach drwy wefan y cyngor. Drwy gymryd rhan, rydych yn cytuno i gael eich ffilmio ac i'r delweddau a'r recordiadau sain hynny gael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a/neu hyfforddiant o bosib

**Rhan 1**

1. Croeso a galw'r rhestr

2. Datganiadau o fuddiannau

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 5 - 6)*

4. Gwneud cais am ymweliad(au) safle gan y ceisiadau a gyflwynwyd

**Adroddiad/au gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd**

**Adran A - Materion i'w Penderfynu**

**Ceisiadau Cynllunio wedi'u hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth**

5. Cais P2022/1063 - Safle blaenorol Ysgol Isaf Dyffryn
*(Tudalennau 7 - 46)*

Cais P2022/1063 ar gyfer Datblygu 43 annedd fforddiadwy a gwaith

cysylltiedig gan gynnwys mynedfa newydd, rhwydwaith ffyrdd mewnol, tirlunio, draenio cynaliadwy, lle parcio ceir a beiciau a dymchwel hen ysgol yn rhannol safle blaenorol Ysgol Isaf Dyffryn, Heol Talcennau, Port Talbot SA13 1EP.

**Adran B - Materion Er Gwybodaeth**

6. Apeliadau y Penderfynwyd Arnynt - 05/12/2022 to 20/03/2023
*(Tudalennau 47 - 48)*

7. Apeliadau a Dderbyniwyd - 05/12/2022 to 20/03/2023
*(Tudalennau 49 - 52)*

8. Penderfyniadau Dirprwyedig - 05/12/2022 to 20/03/2023
*(Tudalennau 53 - 108)*

9. Eitemau brys
Unrhyw eitemau brys yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**K.Jones**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot**

**Dydd Mercher, 22 Mawrth 2023**

**<u>Aelodaeth Pwyllgor:</u>**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Y Cynghorydd C.James** |
| **Is-Gadeirydd:** | **Y Cynghorydd J.Jones** |
| **Aelodau:** | Y Cynghorydd S.Paddison, D.Keogh, R.Davies, T.Bowen, H.Davies, C.James, C.Jordan, C.Phillips, S.Thomas a/ac C.Clement-Williams |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd W.F.Griffiths |

**<u>Gwneud cais i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio</u>**

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd i'r cyfarfod ac annerch y pwyllgor yn unol â gweithdrefn gytunedig y cyngor sydd ar gael yn www.npt.gov.uk/planning.

Os hoffech siarad yn y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais yr adroddwyd amdano i'r pwyllgor hwn, mae'n rhaid i chi:

- Gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post yn: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ, neu'n ddelfrydol drwy e-bostio: democratic.services@npt.gov.uk.
- Sicrhau eich bod yn gwneud eich cais i siarad ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf (erbyn 2pm ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth).
- Nodi’n glir rif yr eitem neu'r cais rydych am siarad amdani/o a chadarnhewch a ydych yn cefnogi'r cais neu’n ei wrthwynebu.
- Rhoi eich enw a'ch cyfeiriad (a fydd ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol dros gyfrinachedd).

Sylwer, dim ond un person sy’n gallu siarad ar ran pob 'categori' ar gyfer pob cais h.y. y gwrthwynebydd, y cefnogwr, yr ymgeisydd/asiant, y Cyngor Cymuned/Tref. Ceir manylion llawn yng ngweithdrefn gytunedig y cyngor.

Yn ogystal, os yw gwrthwynebydd yn dymuno siarad, hysbysir yr ymgeisydd/asiant gan y cyngor.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar siarad cyhoeddus, ffoniwch dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01639 763313.

**Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio yr adroddir amdanynt i'r pwyllgor**

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gais a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio hwn, sylwer bod rhaid i'r Adran Gynllunio dderbyn y rhain erbyn 2.00pm ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y pwyllgor fan bellaf (yn seiliedig ar y cyfarfod dydd Mawrth arferol). Os nad yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid eu derbyn erbyn 2.00pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y Pwyllgor Cynllunio fan bellaf.

Caiff sylwadau a dderbynnir yn unol â phrotocol y cyngor eu crynhoi a, lle y bo'n briodol, gwneir sylwadau arnynt ar ffurf Taflen Ddiwygio, a ddosberthir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-bost ar y noson cyn cyfarfod y pwyllgor, a'i chyflwyno ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.